

Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	28 Gorffennaf 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyng. Julian Thompson Hill / Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Awdur yr adroddiad	Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Diweddariad Archwilio Mewnol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran darpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd mewn ysgogi gwelliant.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am y gwaith a wnaed gan yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Mae'n galluogi'r Pwyllgor i fonitro perfformiad a chynnydd yr Adain Archwilio Mewnol yn ogystal â darparu crynodeb o adroddiadau Archwilio Mewnol er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd ar wasanaethau eraill y Cyngor a meysydd corfforaethol. Mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Bydd cyflawni'r cynllun archwilio yn cynorthwyo'r Pwyllgor i gael sicrwydd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu amodau'r Cyngor yn briodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, asesu cynnydd a pherfformiad yr Adain Archwilio Mewnol.

Bod y Pwyllgor yn penderfynu a oes arno angen sicrwydd pellach ynghylch meysydd a archwiliwyd i olrhain cynnydd y cynlluniau gweithredu gwelliant.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae atodiad 1 yn darparu diweddariad ar y gwaith archwilio mewnol a wnaed ers yr adroddiad diweddaru diwethaf i'r Pwyllgor ym mis Ebrill 2021. Ers yr adroddiad diweddaru diwethaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mae pum archwiliad wedi'u cwblhau, ac ni roddwyd graddfa sicrwydd isel i unrhyw un ohonynt. Cwblhawyd dau adolygiad dilynol o archwiliadau sicrwydd isel blaenorol sydd wedi'u cynnwys fel eitemau rhaglen ar wahân.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd blaenoriaeth corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

Amherthnasol – nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Amherthnasol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ni cheir goblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Os na chwblheir gwaith archwilio digonol yn ystod y flwyddyn, mae yna risg na fydd y Prif Archwilydd Mewnol yn gallu tynnu ar sicrwydd digonol i gyflwyno barn flynyddol gyflawn yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Caiff archwiliadau eu blaenoriaethu i roi sylw i lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol a bydd y cwmpas ar gyfer yr archwiliadau hyn yn canolbwyntio ar risgiau allweddol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Amherthnasol – nid oes angen gwneud unrhyw benderfyniad gyda'r adroddiad hwn.